



Paratoi ar gyfer dyfodol gwahanol: adroddiad sesiwn darparu gwasanaethau

CYD-DESTUN

Gydol misoedd Mai a Mehefin 2020 bu CGGC yn cynnal rhaglen o fforymau trafod ar-lein er mwyn ennyn dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu'r sector gwirfoddol yng Nghymru o ganlyniad i Covid-19, y gwahanol bosibiliadau sy'n dod i'r wyneb ar gyfer y dyfodol a'r ffordd orau y gallwn ni baratoi; trwy wyro tuag at y canlyniadau mae'r sector yn dymuno'u gweld. Mae hyn yn adeiladau ar y [dysgu cychwynnol](#) a gyhoeddodd CGGC ym mis Mai 2020.

Cafodd cyfres o chwe sesiwn – pob un yn canolbwyntio ar bwnc gwahanol – eu cynnal ochr yn ochr â holiadur ehangach. Hyrwyddwyd y rhain ar draws aelodaeth CGGC ac roedd modd cael mynediad iddynt yn rhad ac am ddim.

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar bedwar cwestiwn allweddol:

- Beth fu effaith Covid-19?
- Ble allai hyn arwain at newid hirdymor – cadarnhaol a negyddol?
- Beth yw'r goblygiadau i'r sector gwirfoddol yng Nghymru?
- Beth all mudiadau gwirfoddol, CGGC, y llywodraeth, neu benderfynwyr eraill ei wneud er mwyn helpu i'n harwain ni tuag at ddyfodol gwell?

Cafodd adroddiad cryno ei baratoi ar gyfer pob sesiwn, gan [Richard Newton Consulting](#); yn ogystal ag adroddiad terfynol a oedd yn ceisio tynnu'r prif themâu a'r prif weithredoedd ynghyd. Caiff yr adroddiadau eu rhannu'n eang gyda'r sector ac eraill.

Ceisio'r adroddiadau hyn sefydlu themâu a gweithredoedd yn hytrach na chreu crynodeb o'r hyn a ddywedwyd. Maent yn adlewyrchu ar ymatebion a chyfraniadau'r arolwg yn ystod y digwyddiadau, yn hytrach na safbwyntiau CGGC neu Richard Newton Consulting. Ni allwn gadarnhau os ydynt yn gwbl gywir neu os mai dirnadaeth pobl ydynt.

Ar 28 Mai 2020 cynhaliwyd y trydydd fforwm trafod er mwyn archwilio pwnc darparu gwasanaethau o fewn amgylchedd Covid. Cofrestrodd dros 113 o fudiadau i fynychu – gan gynrychioli ystod o fudiadau o'r sector nid-er-elw. Roedd hyn yn cynnwys elusennau cofrestredig a chwmnïau buddiannau cymunedol, yn ogystal â mudiadau cefnogi gan gynnwys CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) ac awdurdodau lleol.

Gan atseinio canfyddiadau'r ddwy sesiwn flaenorol, mae'n amlwg nad yw profiadau'r sector yn rhai cyffredinol. Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn darparu ystod helaeth o wasanaethau a gweithgareddau. Mae rhai wedi bod ynghlwm yn uniongyrchol â darparu ymateb argyfwng i Covid-19 ac yn wynebu galw sylweddol am eu gwaith; i'r gwrthwyneb mae mudiadau eraill wedi canfod eu hunain yn gohirio gweithrediadau dros dro wrth i weithgareddau, yn enwedig y rheiny sydd wedi'u ffocysu ar leoliad, brofi'n amhosibl i'w cynnal tra'n cydymffurfio â rheolau ymbellhau cymdeithasol. Ar ben hynny, roedd y sector gwirfoddol hefyd yn rhoi staff ar ffyrlo.

Ar 21 Mai 2020 cynhaliwyd yr ail fforwm drafod er mwyn archwilio'r pwnc o adeiladu ar yr ymateb cymunedol a gwirfoddoli. Cofrestrodd dros 130 o unigolion i fynychu – gan gynrychioli ystod o fudiadau o'r sector nid-er-elw. Roedd hyn yn cynnwys elusennau cofrestredig a chwmnïau buddiannau cymunedol, yn ogystal â mudiadau cefnogi gan gynnwys CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau), awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned.

Gan atseinio canfyddiadau'r sesiwn flaenorol ar wydnwch ariannol, mae'n amlwg gan yw profiadau'r sector yn rhai cyffredinol. Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn darparu ystod helaeth o wasanaethau a gweithgareddau. Mae rhai wedi bod ynghlwm yn uniongyrchol â darparu ymateb argyfwng i Covid-19 ac yn wynebu galw sylweddol am eu gwaith; i'r gwrthwyneb mae mudiadau eraill wedi canfod eu hunain yn gohirio gweithrediadau dros dro wrth i weithgareddau, yn enwedig y rheiny sydd wedi'u ffocysu ar leoliad, brofi'n amhosibl i'w cynnal tra'n cydymffurfio â rheolau ymbellhau cymdeithasol.

DARPARU GWASANAETHAU – BETH FU EFFAITH COVID-19?

Cyfeiriodd pawb a gymerodd ran at y ffaith iddynt orfod gwneud newidiadau sylweddol i ddarpariaeth gwasanaethau. Ymddengys i'r newidiadau hyn esblygu a chael eu blaenoriaeth wrth i'r pandemig ddatblygu. Bu'r newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau yn ganlyniad i incwm (yn enwedig gostyngiad mewn incwm a arweiniodd at gyfyngiadau ar wasanaethau) a'r angen i ymateb i heriau Covid-19.

Yn enwedig:

- Adroddodd mudiadau fod cychwyn y cyfnod clo wedi golygu cyfyngiad di-oed ar wasanaethau, ac mae'r rhai a ystyriwyd yn wasanaethau hanfodol neu'n wasanaethau ymateb i argyfwng oedd yr unig rai wnaeth barhau. Adroddodd y rhai sy'n darparu'r gwasanaethau hyn am gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau. Er enghraifft, cynyddodd cynllun Cysylltwyr Cymunedol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVS) o fod â 220 o atgyfeiriadau'r mis, ar gyfartaledd, i 1,632 pan oedd achosion Covid-19 gwanwyn 2020 ar eu hanterth. Arweiniodd hyn at adleoli staff i'r gwasanaeth a symud at weithredu saith diwrnod yr wythnos.
- Cafwyd ymateb ar unwaith gan y gymuned (PAVS) a sefydlwyd cefnogaeth mewn mater o ddyddiau. Dylid cydnabod yr ymateb hwn fel agwedd gadarnhaol arwyddocaol o bandemig Covid-19. Mae angen adeiladu ar hyn heb iddo droi'n or-fiwrocraidd.

- Wrth i fudiadau ddechrau addasu i ymbellhau cymdeithasol, mae mwy o wasanaethau wedi'u hail-fodelu, gan ddarparu o bell yn bennaf trwy dechnoleg ddigidol.
- Mae gwasanaethau sydd wedi'u ffocysu ar leoliadau (e.e. amgueddfeydd, canolfannau celfyddydol) wedi'i chael hi'n anodd parhau â'u gwasanaethau, gyda nifer yn cau eu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yn llwyr.
- Cafwyd mwy o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth. Adroddodd nifer o fudiadau ar weithio ar y cyd â mudiadau tebyg ar lefel a fu cyn hyn yn ddigynsail er mwyn sicrhau fod y bobl fwyaf agored i niwed yn cael eu diogelu. I'r un graddau, mae llacio ar brotocoliau rhannu data wedi cyfrannu at gynnydd mewn gweithio mewn partneriaeth. Wrth adolygu gweithio mewn partneriaeth, cydnabu'r rhai a gymerodd ran hefyd sut mae perthnasau â phartneriaid y trydydd sector, yn enwedig awdurdodau lleol, wedi newid o ganlyniad i'r pandemig.
- Mae Cyngorau Tref wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi eu cymunedau; gan gefnogi banciau bwyd, dosbarthu bwyd anifeiliaid anwes, rhoi credyd atodol ar gardiau trydan.

DARPARU GWASANAETHAU – BLE ALLAI HYN ARWAIN AT NEWID HIRDYMOR – CADARNHAOL A NEGYDDOL?

Gydag ymbellhau cymdeithasol yn datblygu i fod yn 'normal newydd', mae newid yn cael ei orfodi ar ddarparwyr gwasanaeth trwy'r angen i gydymffurfio â gofynion iechyd y cyhoedd a chyfyngiadau'r llywodraeth. Mae angen i ddarpariaeth gwasanaeth fod yn hyblyg er mwyn gallu cynnig y profiad gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth tra hefyd yn ymateb i wahanol gyfyngiadau posibl mewn perthynas â'r Coronafeirws. Ceir ymdeimlad ar draws nifer o fudiadau y bydd dod allan o'r cyfnod clo yn anoddach na mynd i mewn iddo. Roedd cychwyn y cyfnod clo yn ddi-oed ac yn fandadol; lle anogir mudiadau i ddefnyddio mwy o ddisgresiwn yn nhermau cynllunio'r gwasanaethau i'w darparu wrth i ni ddod allan o'r cyfnod clo.

Wrth ystyried newid, mae mudiadau wedi amlygu'r canlynol:

- Bu ffocws ar symud at wasanaethau digidol. Tra i hyn brofi'n beth da, rhaid cydnabod bod cohort mawr o'r boblogaeth o hyd nad ydynt yn rhannu

cydraddoldeb digidol. Gallai hyn fod o ganlyniad i'w sgiliau neu eu gwybodaeth nhw eu hunain neu o ganlyniad i argaeledd adnoddau megis band eang mewn ardaloedd gwledig. Soniodd mudiadau hefyd am y modd y maen nhw wedi rhoi ail wynt i gylchlythyron print ac wedi defnyddio'r ffôn – gwasanaethau a groesawyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

- Ceir pryder fod nifer o'r addasiadau i ddarpariaeth gwasanaeth a gyflwynwyd wedi'u datblygu'n gyflym iawn. Mae angen adolygu'r addasiadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio a bod llais defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei ystyried wrth gynllunio saerniaeth gwasanaethau. Codwyd pryderon ynglŷn â sut y gallai'r symudiad tuag at wasanaethau digidol gael ei weld yn amheronol. Fodd bynnag, wrth ymateb i hyn cafwyd cydnabyddiaeth y dylai unrhyw strategaeth ddatblygu fod yn berson-ganolog.
- Mae mudiadau'r sector gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau argyfwng rheng flaen wedi cwrdd â'r galw trwy adleoli staff a gweithio hyd eithaf eu capasiti. Fe ymatebodd mudiadau oherwydd, o ystyried eu gwerthoedd, bod yn rhaid iddynt wneud – ac nid bob amser oherwydd bod ganddyn nhw'r adnoddau i wneud. Nid yw hyn yn gynaliadwy o ystyried llesiant staff ac adnoddau ariannol.
- Mae'r rhan fwyaf o staff (a gwirfoddolwyr) mudiadau wedi symud i weithio gartref. Wrth i hyn ymestyn, gydag amser, yn arfer gweithio, ceir ystyriaethau pellach o ran llesiant staff. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ganddyn nhw'r adnoddau i weithio'n ddiogel o'r cartref – a materion ehangach yn ymwneud â'u lles a mynd i'r afael â theimladau o deimlo'n ynysig. Mae paratodau ar gyfer dychwelyd i weithio mewn swyddfeydd hefyd yn cyflwyno heriau o ran gwariant ariannol, yn ogystal ag ymateb i gyfyngiadau corfforol nifer o swyddfeydd bychan.
- Mae perthnasau gyda chomisiynwyr y sector cyhoeddus wedi newid ac mae angen i nifer o fudiadau adolygu'r rhain. Nid y perthnasau oedd gan bobl cynt yw'r rhai sydd eu hangen bellach, o anghenraid.
- Ceir ansicrwydd sylweddol o hyd o ran sut y bydd gwasanaethau sydd wedi'u ffocysu ar leoliad yn ail-sefydlu darpariaeth, gyda phryderon ynglŷn â staff, defnyddwyr gwasanaeth a chynulleidfaoedd sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau hyn.

DARPARU GWASANAETHAU – BETH YW'R GOBLYGIADAU I'R SECTOR GWIRFODDOL YNG NGHYMRU?

Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru wedi'i hymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i Gymru. Rhaid ystyried nifer o oblygiadau o ganlyniad i bandemig Covid-19.

- Mae i'r symudiad tuag at ddarpariaeth o bell/ darpariaeth ddigidol fanteision a diffygion o ran y modd y gall y sector gefnogi defnyddwyr gwasanaeth. Tra bod angen i'r sector ymateb i heriau'r Coronafeirws, ni ddylai hyn fod ar draul dychwelyd at weithio uniongyrchol yn yr hirdymor. Ceir pryder y bydd comisiynwyr yn gweld darpariaeth o bell/ darpariaeth ddigidol fel model darpariaeth fwy ariannol effeithlon yn yr hirdymor.
- Dylai'r cynnydd mewn gweithio mewn partneriaeth a welwyd yn ystod y pandemig gael ei gynnal. Gallai hyn fod ar y cyd â newidiadau posibl i strwythur y sector fel yr archwiliwyd yn y sesiwn ar Wydnwch Ariannol.
- Cei ystyriaethau ariannol, nad ydynt yn gyffredin ar draws y sector, ond sydd angen eu hystyried wrth ddarparu gwasanaethau:
 - Costau addasu gwasanaethau ar gyfer ymbellhau cymdeithasol
 - Costau addasu gweithrediadau cefnogi craidd ar gyfer ymbellhau cymdeithasol
 - Ôl-ffeilio costau gwasanaethau a gyllidwyd trwy incwm gwirfoddol sy'n gostwng
 - Ymateb i ddarparwyr gwasanaeth wedi'u ffocysu ar leoliad sy'n wynebu heriau wrth ail-ddechrau gweithgarwch
- Ceir awgrymiadau y bydd y sector yn ailymweld â'i ofynion isadeiledd, yn enwedig gofynion eiddo, yng ngoleuni profiadau gwanwyn 2020 a gallu staff i weithio o gartref.

DARPARU GWASANAETHAU – BETH ALL MUDIADAU GWIRFODDOL, CGGC, Y LLYWODRAETH, NEU BENDERFYNWYR ERAILL EI WNEUD I HELPU I’N HARWAIN NI TUAG AT DDYFODOL GWELL?

Mae nifer o syniadau ar gyfer gweithredu yn codi o’r sesiwn i CGGC ac aelodau eu hystyried gyda rhanddeiliaid eraill er mwyn cynnig y gwasanaethau gorau posibl yn y dyfodol.

- Wrth gynrychioli’r sector i randdeiliaid eraill sy’n ymwneud â’r ymateb i Covid-19, mae’n hanfodol fod trwch y sector, a’r gwasanaethau a ddarperir, yn cael eu hamlygu.
- Mae ar y sector yr angen am ddatblygiad i adeiladu a rhannu arfer dda o ran gweithio mewn dull sy’n dilyn rheolau ymbellhau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth ochr yn ochr â chefnogi mudiadau i gefnogi llesiant a diogelwch eu staff nhw eu hunain.
- Rhaid i’r gwerth ychwanegol mae’r sector wedi’i ychwanegu, ac yn parhau i’w ychwanegu, gael ei brisio a’i gyfathrebu’n llawn i randdeiliaid a chynllunwyr polisi
- Rhaid i lawn gost addasu gwasanaethau gael ei adnabod yn llawn, a rhaid holi cyllidwyr er mwyn cwrdd â’r costau hyn. I’r un graddau ni ddylid caniatáu bod comisiynwyr yn gweld darpariaeth o bell/ darpariaeth ddigidol fel dull gwerth am arian o arbed costau
- Gallai strwythur y sector newid, ac mae gan fudiadau isadeiledd rôl i’w chwarae yn hyn o beth (yn unol yn uniongyrchol â chanfyddiadau sesiwn un – Gwydnwch Ariannol)
- Rhaid darparu gwybodaeth a chefnogaeth ymarferol ar faterion megis gwerthu eiddo wrth i hyn ddod yn fater pwysicach i fudiadau
- Rhaid cyflwyno rhaglen waith ddynodedig ar brif anghenion gwasanaethau wedi’u ffocysu ar leoliad sy’n ei chael hi’n anodd adnabod ffyrdd o ail-ddechrau gweithredu

0300 111 0124

wcva.cymru

Cyhoeddwyd Mehefin 2020

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Rhif cofrestru'r elusen 218093

Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299

Cofrestrwyd yng Nghymru